# Rheoli cyfundrefnau rheoli ar gyfer pysgod

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â rheoli cyfundrefnau rheoli, fel mater o drefn ac arbenigol, i gynorthwyo cynhyrchu pysgod ar fferm pysgod esgyll.

Mae'n gofyn bod gwaith yn cael ei gwblhau yn unol â gweithdrefnau gweithredu safonol y safle.

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn gysylltiedig â rheoli cyfundrefnau bwydo ar gyfer pysgod.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. sicrhau bod yr holl waith yn cael ei wneud yn ddiogel ac yn unol â gofynion cyfreithiol perthnasol a gweithdrefnau'r safle
2. rheoli cyfundrefnau bwydo ar gyfer pysgod i ystyried amrywiadau amgylcheddol
3. sicrhau bod cyfundrefnau bwydo yn cael eu dilyn gan weithdrefnau bwydo wedi eu gweithredu'n gywir
4. defnyddio data i gyfrifo perfformiad cynhyrchu
5. gweithredu addasiadau i gyfundrefnau bwydo i ystyried newidiadau mewn perfformiad cynhyrchu ac amrywiadau mewn amodau amgylcheddol
6. ymchwilio i newidiadau mewn ymddygiad bwydo i bennu eu hachos a'r camau cywiro sydd eu hangen
7. monitro gweithrediad effeithiol bwydwyr, systemau bwydo a chyfarpar monitro
8. cynnal y gwaith o storio porthiant yn effeithiol
9. sicrhau cynnal hylendid effeithiol
10. dadansoddi adborth o gyfarpar monitro a chan y rheiny sydd yn gysylltiedig â bwydo
11. ymchwilio i achosion o wastraff a'u symud o gyfundrefnau bwydo
12. cadw cofnodion o'r holl weithgareddau bwydo a storio porthiant i fodloni gofynion cyfreithiol yn unol a gweithdrefnau'r safle

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol perthnasol a gweithdrefnau'r safle ar gyfer iechyd, diogelwch a diogeledd sydd yn gysylltiedig â bwydo pysgod
2. cyfraddau bwydo a'r ffordd y maent yn newid gydag **amodau amgylcheddol**
3. sut i gyfrifo perfformiad cynhyrchu
4. **deddfwriaeth amgylcheddol** sydd yn benodol i'ch safle a'r ffordd y mae'n effeithio ar gyfundrefnau bwydo
5. **cyfundrefnau bwydo arbenigol** a'u cymhwyso wrth gynnal iechyd a datblygiad pysgod
6. ymddygiad bwydo arferol a sut i bennu achos tebygol newidiadau yn yr ymddygiad hwn
7. pam y mae'n bwysig ymchwilio i amrywiadau mewn ymddygiad bwydo
8. sut i addasu manylebau bwydo i ystyried amrywiadau mewn amodau amgylcheddol
9. gofynion gweithredu yn ymwneud â bwydo, systemau bwydo a dyfeisiadau monitro
10. y systemau a ddefnyddir i gasglu, storio a dadansoddi cofnodion bwydo
11. mathau o borthiant a deiet a sut cânt eu dewis i sicrhau bod targedau cynhyrchu'n cael eu cyflawni
12. y ffordd y mae gofynion cwsmeriaid ac ansawdd yn dylanwadu ar gynnwys porthiant
13. dyluniad a rheolaeth dulliau storio porthiant effeithiol yn cynnwys cysoni cofnodion porthiant
14. sut i ddefnyddio data bwydo i bennu nodweddion poblogaeth pysgod
15. sut mae arsylwadau gweledol yn cael eu defnyddio i helpu i reoleiddio'r broses fwydo, a sut gall pobl eraill gynorthwyo'r gwaith o gasglu'r data hwn
16. sut i ddadansoddi gwybodaeth a geir o ddyfeisiadau bwydo a monitro
17. sut i leihau gwastraff porthiant a pham y dylid ei gadw mor isel â phosibl
18. gweithdrefnau'r safle ar gyfer gwaredu gwastraff
19. gweithdrefnau'r safle ar gyfer cynnal hylendid effeithiol
20. y gofynion cyfreithiol a gweithdrefnau'r safle ar gyfer cadw cofnodion o weithgareddau bwydo a storio porthiant

## Geirfa

**amodau amgylcheddol** – **tywydd, newidiadau mewn ansawdd dŵr

**cyfundrefnau bwydo fel mater o drefn** – gweithgareddau bwydo arferol

**cyfundrefnau bwydo arbenigol** – bwydo i gynorthwyo gofynion penodol e.e. ymprydio, triniaethau mewn porthiant, darparu lliw, deiet gleisiaid, imiwno-gyfnerthwyr

**deddfwriaeth amgylcheddol** - e.e. Rheoliadau Gweithgareddau Rheoledig (CAR)

Rheoli cyfundrefnau rheoli ar gyfer pysgod

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Awst 2015 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Awst 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANAqu21 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ffermio Pysgod |
| **Cyfres/Set** | Cadwraeth Amgylcheddol, Dyframaethu |
| **Geiriau Allweddol** | pysgod; bwydo |